Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| D H Hopkins | E J King | A S Lewis |
| R V Smith | A H Stevens | M Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr):

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

## 20. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd D H Hopkins fudd personol a rhagfarnol yng Nghofnod rhif 25 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd cyn y drafodaeth.

Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol â Chofnod 25 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a nododd ei fod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad ond i beidio â phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â phenodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

## 21. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021.

## 22. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y penderfyniad adolygiad barnwrol diweddar ynghylch y parc sglefrio yn ardal Blackpill. Amlinellodd fod yr awdurdod wedi ildio'r cynnig er mwyn osgoi proses gyfreithiol hir a chostus.

Nododd fod yr awdurdod yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i ddarparu cyfleuster parc sglefrio i breswylwyr Abertawe wrth symud ymlaen, a nododd y bydd swyddogion yn edrych yn awr ar gyflwyno adroddiad newydd i'r Cabinet ei ystyried.

## 23. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 24. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 25. Bargen Ddinesig Bae Abertawe: - Achos Busnes Rhaglen Sgiliau a Thalent

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i achos busnes Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac i awdurdodi ei gyflwyniad ffurfiol yn unol â Chynllun Gweithredu'r Fargen Ddinesig i sicrhau cymeradwyaeth ariannol y Fargen Ddinesig.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) cymeradwyo achos busnes Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Atodiad 1) a'i gyflwyniad ffurfiol yn unol â Chynllun Gweithredu'r Fargen Ddinesig i sicrhau cyllid y Fargen Ddinesig.

2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad ag Aelod o'r Cabinet i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r achos busnes y gallai fod yn ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

## 26. Adfywio Abertawe - Penodi Partner Datblygu

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i benodi'r Partner Datblygu a Ffefrir yn dilyn proses gaffael deialog gystadleuol Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 gyngor a chyfeiriodd at yr wybodaeth gyfrinachol a masnachol sensitif a gynhwysir yn yr adroddiad eithriedig yn Eitem 16 yr Agenda..

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) cymeradwyo penodi'r cynigydd a ffefrir fel y Partner Datblygu Safleoedd Strategol.

2) cymeradwyo cychwyn trafodaethau cyfreithiol gyda'r cynigydd a ffefrir i ddatblygu telerau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Strategol (CPS), yn seiliedig ar y Penawdau Telerau manwl a ddaeth i ben yn ystod y broses gaffael.

3) Rhoir awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyfreithiol i gymeradwyo telerau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Strategol ac unrhyw ddeunydd ategol ac i ymrwymo i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol, yn amodol ar gymeradwyaeth o'r fath.

4) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Prif Swyddog Cyllid i gymeradwyo cwblhau proses Cyfnod 1. Cymeradwyo rhoi cyfnod o 6 mis o ddethol i'r cynigydd a ffefrir ar ôl cwblhau Cyfnod 1 ar y ddealltwriaeth y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i gymeradwyo Cyfnod 2. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf y cynigydd a ffefrir.

## 27. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | |
|---|---|
| 1. Ysgol Gynradd Casllwchwr | Mr John Butler |
| 2. Ysgol Gynradd Clwyd | Y Cynghorydd Terence Hennegan |
| 3. Ysgol Gynradd Danygraig | Mrs Bryony Kamratov-Jones |
| 4. Ysgol Gynradd Hendrefoelan | Mrs Kathryn Novis |
| 5. Ysgol Gynradd Newton | Mrs Sally Harris |
| 6. Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant | Mr Chris Law |
| 7. Ysgol Gynradd Townhill | Mrs Joanne Lewis<br>Y Cynghorydd David Hopkins |
| 8. YGG Bryn-y-môr | Mrs Saran Thomas |
| 9. Ysgol Gymunedol Dylan Thomas | Mr Dereck Roberts |
| 10. YG Gŵyr | Mrs Aldyth Williams |

## 28. Monitro Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn manylu ar ganlyniadau perfformiad 2020/21 wrth gyflawni Amcanion Lles (blaenoriaethau) y cyngor a ddisgrifir yng Nghynllun Corfforaethol 2020/22, *Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy.*

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 29. Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol adroddiad a oedd yn manylu ar strategaeth 5 mlynedd Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ac i Gyngor Abertawe ei chymeradwyo fel rhan o drefniadau Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) cymeradwyo strategaeth 5 mlynedd Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a’r ddogfen Canllaw Cyfeirio Cyflym ategol (Atodiad 1 a 2).

## 30. Fframwaith Cydgynhyrchu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol adroddiad a oedd yn manylu ar Fframwaith Cyd-gynhyrchu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ac i Gyngor Abertawe ei gymeradwyo fel rhan o drefniadau Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo Fframwaith Cyd-gynhyrchu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a'r Siarter a'r Pecyn Cymorth ategol (Atodiad 1, 2 a 3).

## 31. Cytundeb Fframwaith ar gyfer Darparu Gwasanaethau Arolygu/Archwilio, Profi/Dadansoddi Asbestos a Chael Gwared Arno.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth Fframweithiau Cymru Gyfan ar gyfer: Gwasanaethau Arolygu/Archwilio Asbestos; Gwasanaethau Profi/Dadansoddi a Gwaredu Asbestos.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) penodi'r Contractwyr a restrir yn Atodiad 1 ar gyfer pob rhan yn y Fframweithiau ar gyfer: cymeradwyo Gwasanaethau Arolygu/Archwilio Asbestos; Gwasanaethau Profi/Dadansoddi a Gwaredu Asbestos.

2) Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladau i gymeradwyo telerau unrhyw gontractau yn ôl y gofyn yn y dyfodol o dan y Cytundeb Fframwaith mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol.

3) Awdurdodir y Prif Swyddog Cyfreithiol i ymrwymo i'r Cytundebau Fframwaith a'r contractau perthnasol a'u gweithredu yn ôl yr angen i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

## 32. Prosiect Cyflymiad ac Adfywio Economaidd drwy Arloesedd (EARTh)

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo a gweithredu'r Prosiect EARTh.  Bydd y prosiect yn rhoi'r strwythur gweinyddol a'r trefniadau i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe i feithrin y gallu i ganiatáu i nifer o swyddogaethau strategol gael eu cyflawni ar lefel ranbarthol ym meysydd allweddol trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo cyllid grant CGE a gweithredu'r prosiect ynghyd â'r goblygiadau ariannol.

2) Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyfreithiol i drafod ac ymrwymo i unrhyw gytundebau cydweithredu neu ariannu sy'n angenrheidiol i reoleiddio'r berthynas rhwng partneriaid yr Awdurdod Lleol wrth gyflawni'r prosiect.

3) Cymeradwyo'r broses o recriwtio staff i sefydlu'r tîm cyflenwi lleol.

## 33. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 34. Adfywio Abertawe - Penodi Partner Datblygu.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad "er gwybodaeth" ynghylch penodi Partner Datblygu a Ffefrir yn dilyn proses caffael deialog gystadleuol Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 gyngor a gwybodaeth am y cynigiwr a ffefrir.

## 35. Bwriad i Feddiannu Brondeg House gynt, St. Johns Road, Trefansel, Abertawe

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ynghylch a ddylai hen Dŷ Brondeg, St. John's Road, Manselton, Abertawe gael ei adfeddu o dan adran 122(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 at ddibenion Tai.

Mae'r tir y cynigir ei adfeddu ar hyn o bryd yn dir Addysg y cyngor ac ystyrir nad oes ei angen mwyach at y dibenion hyn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhelliad fel y'i nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.49 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | (Add Welsh Month) |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, ??? |
| Penderfyniad yn dod i rym: | |